

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

a gynhaliwyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

ddydd Gwener, 28 Ebrill 2017

Presennol:

Rhodri Glyn Thomas, Llywydd	Colin R. John, Trysorydd	Iwan Davies
Hugh Thomas	Susan Davies	Huw Williams
Yr Arglwydd Aberdâr	Richard Houdmont	Phil Cooper
Liz Siberry	Gwilym Jones	

Tîm Gweithredol:

Linda Tomos	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol
Pedr ap Llwyd	Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus

Staff:

Mererid Jones	Pennaeth Cyllid a Menter (Adran 4)
Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Annwen Isaac	Ymgynghorydd Adnoddau Dynol

Hefyd yn bresennol:

Mary Ellis	MALD
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth
Geralene Mills	Cyfoeth Naturiol Cymru (sylwedydd)

Cyflwyniad i Gylchgronau Cymru Ar-lein

Cafwyd cyflwyniad gan Dr Dafydd Tudur, Rheolwr Isadran Mynediad Digidol i Gylchgronau Cymru Ar-lein.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd sylwadau gan yr Aelodau ar ba mor ddefnyddiol yw'r adnodd yma iddynt yn eu gwaith ymchwil, a dylid ystyried ei ddefnyddio fel adnodd i ddysgu sgiliau ymchwil mewn ysgolion uwchradd, ac i gael plant ysgol i sylweddoli nad yw'r digidol bob tro yn

adlewyrchu'r gwreiddiol yn gywir. Nodwyd y byddai'r gallu i fedru lawr lwytho yn ddefnyddiol dros ben, ac y dylai'r Llyfrgell ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio'r adnodd fel ffrwd incwm masnachol.

Gofynnwyd faint o fwch sydd ar hyn o bryd yn y ddarpariaeth sydd ar gael - 479 o deitlau sydd wedi eu cynnwys. Addawodd Dafydd ymchwilio i weld pa ganran yw hyn o'r cyfan oedd ar gael yn y cyfnod.

GWEITHRED: DAFYDD I CHWILIO PA GANRAN O'R CYFAN YW'R 479 O DEITLAU SYDD AR GAEL AR WEFAN CYLCHGRONAU CYMRU AR-LEIN

Diolchodd Pedr i Owain a Dafydd am eu gwaith a'r amser sydd wedi ei roi i'r prosiect yma. Ategwyd y diolchiadau yma gan y Llywydd.

Adran 1

1.1 Croeso'r Llywydd ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd bawb i'r cyfarfod a dymunwyd yn dda i Siân Thomas, Cyngor Partneriaeth, ar enedigaeth Thomas George.

Ymddiheuriadau

Roedd Dyfrig Jones, Tomos Dafydd Davies a Steve Williams wedi anfon eu hymddiheuriadau.

1.2 Datgan Buddiannau

Datganodd Huw Williams ei fod yn aelod o Geldards LLP ac ers 1 Medi 2015 mae Geldards wedi bod yn un o nifer o gwmnïau a benodwyd i Fframwaith Cyfreithwyr Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru y mae'r llyfrgell yn bwriadu ei ddefnyddio i fodloni ei gofynion o ran gwasanaethau cyfreithiol. Hefyd, mae Geldards yn parhau i gynghori'r llyfrgell ar nifer o faterion parhaus o dan gytundeb gwasanaethau cyfreithiol blaenorol a ddyfarnwyd trwy dendr cystadleuol.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o Brifysgol Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Diolchodd y Llywydd i'r Aelodau am gwblhau'r ffurflen datgan buddiant blynyddol yn amserol a'u dychwelyd i Glerc y Bwrdd.

1.3 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 24 Chwefror 2017

Nodwyd bod angen un cywiriad i'r cofnodion o dan Adran 5.1. Yn dilyn cywiro hyn, cynigiwyd y cofnodion fel rhai cywir gan Phil Cooper ac eiliwyd gan Hugh Thomas.

1.3.1 Yswiriant Indemniad

Yn dilyn argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 17eg Mawrth, cytunodd yr Aelodau y dylid trosglwyddo cyfrifoldeb am yswiriant indemniad i ofal y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad.

1.3.2 Materion yn ymwneud ar tan

Yn dilyn argymhelliad, eto gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 17eg Mawrth, cytunodd yr Aelodau y dylid trosglwyddo cyfrifoldeb am faterion yn ymwneud a'r tan i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol.

Yn y ddwy achos, cytunwyd y dylai unrhyw benderfyniadau sydd angen eu cymeryd ddod o flaen y Bwrdd llawn.

1.4 Log Gweithredu o gyfarfod 4 Tachwedd

Mae'r cyfan o'r gweithrediadau wedi eu cwblhau, heblaw am roi gwybod i'r Ymddiriedolwyr am ddyddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - mae'r Llyfrgell yn parhau i aros am y dyddiad.

Adran 2

2.1 Aelodaeth Pwyllgorau / sefydlu Pwyllgorau eraill

Gwnaed argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn *Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Adolygiad Llywodraethu (A4)* "y dylai'r Bwrdd sefydlu rhagor o bwyllgorau â chylch gorchwyl clir"; bydd rhaid ystyried hyn yn ofalus, gan mai nifer cyfyngedig o Ymddiriedolwyr sydd gan y Llyfrgell, ac mae peryg y bydd y llwyth gwaith yn mynd yn ormod. Cytunwyd y dylid trafod hyn ymhellach yn y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad.

Wrth drafod y mater yma, atgoffodd y Llywydd yr Aelodau fod angen Ymddiriedolwr i ymuno gyda'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol, a dau Ymddiriedolwr i ymuno gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Dylai unrhyw Ymddiriedolwr sydd â diddordeb roi gwybod i Gadeiryddion y Pwyllgorau a'r Clerc ar ddiwedd y cyfarfod.

GWEITHRED: GOSOD SEFYDLU PWYLLGORAU ERAILL AR AGENDA CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT A PHERFFORMIAD

GWEITHRED: RHOI GWYBOD I'R CADEIRYDDION A'R CLERC OS AM YMUNO GYDA'R PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG NEU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO ARIANNOL

2.2 Cyhoeddi papurau cyfarfodydd agored ar y wefan

Argymhelliad arall yn yr un adroddiad (A6) oedd y dylai'r Llyfrgell "gyhoeddi ar ei gwefan papurau yn cefnogi eitemau agenda mewn sesiynau agored". Roedd yr Aelodau yn hapus i gymeradwyo hyn.

GWEITHRED: GOSOD PAPURAU CYFARFODYDD AGORED Y BWRDD AR WEFAN Y LLYFRGELL CYN POB CYFARFOD

2.3 Calendar Cyfarfodydd 2018

Mi fydd y Clerc yn paratoi calendar o gyfarfodydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau ar gyfer 2018 yn fuan; dylid cysylltu gyda'r Clerc gydag unrhyw adborth o ran dyddiad cynnal cyfarfodydd, amlder ac ati.

GWEITHRED: CAROL I GYLCHREDEG CALENDAR O DDYDDIADAU POSIB I'R YMDDIRIEDOLWYR

2.4 Cynllun Gweithredu Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'n galonogol nodi bod symud ymlaen yn digwydd ar bob argymhelliad, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi ei bod yn fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi ei wneud cyn belled. Mi fydd y Llywydd a'r Llyfrgellydd yn cyfarfod SAC ym mis Mai i drafod cynnydd.

Adran 3

3.1 Penodi Trysorydd – diweddariad ar y broses

Cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer dau ymgeisydd ar 27ain Ebrill, ac mi fydd un arall yn cael cyfweiliad ar 5ed Mai; bydd cyhoeddiad yn cael ei wneud yr wythnos ddilynol.

3.2 Penodi Is Lywydd – diweddariad ar y broses

Cafwyd un ymgeisydd ar gyfer swydd yr Is Lywydd ond bu'n rhaid gohirio'r broses, oherwydd mater technegol. Mi fydd y swydd yn cael ei hysbysebu unwaith yn rhagor, gyda chyfweiliadau yn yr Hydref. Mae cyfarfod i drafod y broses wedi ei drefnu ar gyfer 9fed Mai rhwng swyddogion MALD, aelodau'r Tîm Gweithredol a Chlerc y Bwrdd.

3.3 Cymru Hanesyddol

Cyflwynwyd adroddiad ac argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet, ac mae wedi derbyn yr argymhellion. Mi fydd cyfarfod ffurfiol cyntaf y cyrff ar 18fed Mai; mae cylch gorchwyl yn cael ei baratoi ac mi fydd hwn yn cael ei gylchredeg i'r Bwrdd am sylwadau

GWEITHRED: CYLCHREDEG CYLCH GORCHWYL CYMRU HANESYDDOL I AELODAU'R BWRDD AM SYLWADAU

3.4 Defnydd o sêl y Llyfrgell

Cyflwynwyd adroddiad ar y defnydd o sêl y Llyfrgell yn unol â chymal 13.2 yn y Rheoliadau.

3.5 Adroddiad Uchafbwyntiau 2016 – 2017

Mae'r adroddiad wedi ei osod ar wefan yr Aelodau, ac roedd copïau caled wedi eu dosbarthu cyn dechrau'r cyfarfod. Rhoddodd Linda gyflwyniad PowerPoint, gan amlygu'r meysydd canlynol - Caru Celf - y gobaith yw ymestyn hwn i gynnwys eitemau eraill o'r casgliadau, sleepover Girlguiding Cymru, Cwpan Nanteos, Mametz, gwobr gwirfoddoli ARA, Cynefin, Canolfan Penfro, Rhaglen Cyfuno, Prosiect Rhyfel Byd Cyntaf, marchnata a chodi incwm, ystadau a'r gwaith cadwraeth. Cafwyd cwestiynau/sylwadau ynglŷn â'r canlynol

LLGC@Caerdydd

Am y tro cyntaf yn hanes y Llyfrgell, mae presenoldeb gyda'r Llyfrgell tu allan i Aberystwyth; ers dechrau 2017, mae presenoldeb ym Mhrifysgol Caerdydd, sy'n rhoi mynediad i ddeunydd adnau cyfreithiol electronig, ac mae hyn ar gael i'r cyhoedd yn ogystal â myfyrwyr y Brifysgol, ac yn adnodd pwysig i ymchwilwyr. Mae'n rhy fuan eto i nodi faint o ddefnydd sydd wedi bod o'r safle ond mi fydd adolygiad yn cael ei gynnal mewn chwe mis. Nododd Linda y byddai'n hapus i drefnu ymweliad â'r Brifysgol i'r Ymddiriedolwyr hynny sydd â diddordeb i weld y safle.

Tynnodd Linda sylw'r Ymddiriedolwyr at JCLD (Joint Committee on Legal Deposit) sydd yn gyd bwyllgor o'r llyfrgelloedd hawlfraint a chyhoeddwyr. Nid oedd y cyhoeddwyr yn hapus gydag ehangu mynediad i ddeunydd adnau cyfreithiol electronig, ac fel cyfaddawd, bu'n rhaid cytuno i beidio â hyrwyddo'r mynediad oedd ar gael yng Nghaerdydd; mae hyn yn rhwystredig iawn i'r Llyfrgell, ac mae Llyfrgell Genedlaethol yr Alban yn yr un sefyllfa gyda'i mynediad nhw yn Kelvin Hall.

GWEITHRED: LINDA I DREFNU YMWELIAD Â PHRIFYSGOL CAERDYDD I WELD Y SAFLE ADNAU CYFREITHIOL ELECTRONIG.

Cofnodion y Cynulliad Cenedlaethol

Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr os oedd arian ychwanegol ar gael i ystyried symud cofnodion y Cynulliad i Aberystwyth. Mae adnoddau ar gael i ariannu 2 swydd am gyfnod o chwe mis. Mi fydd y rheol ugain mlynedd yn dod i rym yn 2019, a phryd hynny mi fydd angen anfon yr holl bapurau naill ai i Kew neu drefnu eu bod yn aros yng Nghymru. Mae cynllunio ar gyfer opsiynau posib i sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru yn un o flaenoriaethau' Llyfrgellydd am 2017/2018 a gellid dadlau mai'r Llyfrgell yw'r cartref priodol i'r cofnodion yma. Mi fydd angen deddfwriaeth i gyflawni hyn, ond mae'n bwysig bod trafodaethau yn cychwyn mor fuan â phosib i gael bod yn barod erbyn 2019.

Nododd yr Arglwydd Aberdâr ei fod yn Is gadeirydd Grŵp bob plaid Seneddol ar Archifau, ac mi fyddai'r Grŵp yma yn hapus iawn i fod yn rhan o unrhyw drafodaeth ar y mater yma. Cytunodd y Llywydd a'r Llyfrgellydd i siarad gyda'r Grŵp i gael eu cefnogaeth.

GWEITHRED: LLYWYDD A LLYFRGELLYDD I SIARAD Â'R GRŴP POB PLAID SENEDDOL AR ARCHIFAU YNGLŶN Â SEFYDLU ARCHIF GENEDLAETHOL I GYMRU

Strategaeth Gyfathrebu

Gofynnwyd os oedd Strategaeth Gyfathrebu allanol ar gael i hyrwyddo'r sefydliad i rhanddeiliaid. Nodwyd bod Strategaeth o'r fath yn cael ei pharatoi, ac mi fydd yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf.

GWEITHRED: CYFLWYNO STRATEGAETH CYFATHREBU ALLANOL I'R BWRDD YM MIS GORFFENNAF

Adran 4

4.1 Cyfrifon Cyllidol hyd at ddiwedd Mawrth 2017

Diolchodd y Llywydd i'r Trysorydd, Colin John, David Michael a Mererid Boswell am sicrhau fod y Llyfrgell yn cyrraedd diwedd y flwyddyn ariannol mewn sefyllfa foddhaol. Cafwyd cyfle i ddiolch i Colin am ei waith yn y cinio dathlu ym Mhendinas neithiwr, a diolchodd y Llywydd hefyd i staff Pendinas am ei gwaith ardderchog yn paratoi'r cinio.

Nododd Mererid fod yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 21ain Ebrill, ac nad oedd y ffigyrau wedi newid llawer ers hynny. Tynnwyd sylw at y canlynol; nid yw'r Llyfrgell wedi gwario gymaint ar gyflogau oherwydd bod swyddi wedi aros yn wag am gyfnod neu wedi eu hariannu gan arian prosiect; llwyddodd y rhan fwyaf o adrannau i aros o fewn eu cyllidebau, heblaw am yr Adran Ystadau, ond mi wnaeth yr adrannau wnaeth danwario wneud i fyny am hyn; llwyddwyd i gyrraedd y targed codi incwm, a nodwyd bod £10m yn y portffolio buddsoddiadau.

Codwyd cwestiwn ynglŷn â gallu'r Llyfrgell i barhau i beidio llenwi swyddi o ystyried y gwaith sydd angen ei wneud i gyflawni'r Strategaeth newydd, a nodwyd bod angen cadw 3.5% yn y grant gwaelodlin, ond nid yw'r Llyfrgell wedi cael sicrwydd eto bod hwn yn y llinell sylfaen.

Nodwyd hefyd bod angen edrych ar brosesau reprograffeg y Llyfrgell, i'w gwneud yn haws i ymchwilyr ac eraill i ddefnyddio delweddau, gan fod hyn codi incwm i'r Llyfrgell. Cytunodd y Llyfrgellydd fod angen cysondeb i wella'r profiad i ddefnyddwyr.

GWEITHRED: ADOLYGU'R PROSESAU REPROGRAFFEG YN ENWEDIG DARPARU DELWEDDAU I YMCHWILWYR AR GYFER EU CYHOEDDI

Nododd y Trysorydd ei fod yn hapus gyda'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, Nid oedd y Llyfrgell wedi gorfod defnyddio arian preifat o gwbl, ond rhaid sicrhau medru cadw'r 3.5% yn y grant gwaelodlin. Diolchodd Colin yn arbennig i staff y Llyfrgell am lwyddo i gyflawni pob dim mewn amgylchiadau ariannol anodd. Diolchodd hefyd am y cinio dathlu ym Mhendinas ac ategodd ei ddiolch yntau i staff Pendinas, a nodi fod cynnal ciniawau gyda'r nos efallai yn gyfle i godi incwm tuag at y dyfodol.

4.2 Cofrestr Risg

Cyflwynwyd y gofrestr gan David Michael, ac roedd yr Aelodau yn hapus i weld nad oedd unrhyw ardaloedd coch yna. Nododd Huw fod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi craffu ar y gofrestr yn ei gyfarfod ar 17eg Mawrth, a bod diwygiadau wedi eu hawgrymu ar y pryd, sydd wedi eu

hymgorffori yn y fersiwn yma. Roedd yr Aelodau yn hapus gyda'r ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei gyflwyno, yn enwedig y golofn sydd yn gosod allan y risgiau yn erbyn yr amcanion strategol.

Adran 5

5.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 17.03.17

Cyflwynwyd y cofnodion drafft gan y Cadeirydd, Huw Williams. Nododd fod penawdau'r agenda ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yma bellach wedi eu halinio gyda chylch gorchwyl y Pwyllgor. Amlygwyd y canlynol gan y Cadeirydd.

Mae yswiriant indemniad yn nwylo'r Tîm Gweithredol ar hyn o bryd, ac mae copi o lythyr James Watkins wedi ei anfon at y Comisiwn Elusennau, ond nid oes ymateb wedi dod hyd yma.

Roedd y Pwyllgor wedi trafod a chytuno y byddai'n syniad da i symud adnoddau o'r archwiliad mewnol ar ddiogeled data i wirio'r casgliadau, ac yn dilyn y tan, mae achos cryf dros wneud hyn. Rhaid cofio bod GDPR (General Data Protection Regulation) yn dod i rym yn 2018, ac mi fydd yn rhaid cael sustemau mewn lle fydd yn medru ymdopi â hyn. Gofynnwyd felly i'r Tîm Gweithredol ystyried yn ofalus yr oblygiadau o dynnu adnoddau oddi ar yr archwiliad yma.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried methodoleg archwilio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

5.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 21.04.17

Cyflwynwyd y cofnodion drafft gan y Cadeirydd, Colin John. Diolchwyd i Phil Cooper, am ganiatáu i'r Pwyllgor gyfarfod yn swyddfeydd Venture Wales yn Abercynon. Amlygwyd y canlynol;

Cytunwyd i gylchredeg rhestr o'r eitemau a brynwyd yn arwerthiant Glyn Cywarch i'r Aelodau.

GWEITHRED: CYLCHREDEG RHESTR O'R EITEMAU A BRYNWDYD YN ARWERTHIANT GLYN CYWARCH I'R AELODAU

Nid yw amodau cronfa Maxwell Fraser mor gyfyngedig ac a feddylwyd yn wreiddiol, ac mae modd symud yr arian o'r gronfa gyfyngedig i un anghyfyngedig, sydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd o ran defnyddio'r arian. Mae tua £700k yn y gronfa ar hyn o bryd.

Cynllun Pensiwn - mae materion cyfredol a dyfodol y cynllun ac unrhyw newidiadau sydd eu hangen yn rhai byw ac yn cael eu trafod ar hyn o bryd.

Cyllideb tymor canolig – mae hon wedi ei gosod ar wefan yr Aelodau er gwybodaeth.

Presenoldeb yng Nghaerdydd – mae hwn yn eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod.

Gwerthusiad Investec - mi fydd y cwmni yn dod i roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ym mis Gorffennaf.

Gwaith Rhaglen Cyfalaf - cafwyd diweddariad gan David Michael. Roedd y Bwrdd Prosiect wedi cyfarfod ar 27ain Ebrill, ac roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i wario gymaint â phosib o'r arian yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Mae angen 3 cytundeb - asbestos, storfa 1 ac ardal blaen yr adeilad; mi fydd y gost yn £8m am dri chytundeb, ond mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael un tendr am yr holl waith.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, nododd David ei bod yn haws cyllido gyda thri chytundeb, ond mae llai o risg cael un contractwr (yn hytrach na thri) yn arolygu'r gwaith, a llai o siawns o hawliadau yn erbyn y Llyfrgell.

Gofynnwyd sut y byddai apwyntio pensaer yn cael ei sgorio o ran arbenigedd cadwraethol; mi fydd y Llyfrgell yn defnyddio trefniadau fframwaith Llywodraeth Cymru ac nid oes gofyn am arbenigedd cadwraethol yn y fframwaith, ond mi fydd y Llyfrgell yn ymchwilio i hyn ar gyfer pob un sydd yn cyflwyno tendr.

Mae CADW wedi datgan diddordeb yn y silffoedd sydd yn stac 1, ac mi fydd yn rhaid i'r Llyfrgell gyflwyno achos busnes cryf ar gyfer tynnu'r rhain allan o'r adeilad. Mi fydd hefyd rhaid cael caniatâd adeilad rhestredig gan Gyngor Ceredigion, ac mi fydd yn rhaid i unrhyw waith gael ei gymeradwyo gan y Gwasanaeth Tan, a chydymffurfio gyda rheolau tan.

Adran 6

6.1 Busnes y Llyfrgellydd

Diolchodd Linda i'r Bwrdd am eu cefnogaeth, ac i David, Pedr a'r holl staff am sicrhau llwyddiant y Llyfrgell.

Mae'n flwyddyn union ers i'r Comisiwn symud fewn i'r adeilad, ac roedd Linda am ddymuno yn dda iddynt.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cymeradwyo'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu am 2017 - 2021; nododd Dr Susan Davies fod ganddi rai sylwadau ar y Cynllun Gweithredu, a bydd yn anfon y rhain at Linda yn uniongyrchol.

6.2 Busnes y Llywydd

Nododd Y Llywydd fod y Bwrdd wedi cytuno i ymestyn cytundeb y Llyfrgellydd tan ddiwedd mis Tachwedd 2018.

Diolchodd y Llywydd hefyd i'r holl staff am eu hymroddiad i sicrhau llwyddiant y Llyfrgell.

7. Unrhyw fater arall

Mi fydd digwyddiad yn y Senedd am hanner dydd ar 18fed Hydref i ddathlu William Williams, Pantycelyn, pryd bydd gwaith celf gan Ifor Davies yn cael ei ddadorchuddio. Mi fydd y Prif Weinidog ac Elin Jones yn bresennol.